



Polisi Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio

Fel cwmni, mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn ymwybodol o'r risgiau a'r peryglon ym mhedwar ban byd ac yn y DU mewn cysylltiad â radialeiddio, eithafiaeth a gweithgareddau terfysgol. Mae'r bygythiadau o'r gweithgareddau hynny'n real a difrifol iawn i'n cymdeithas a'n cymunedau lleol, a gallant gynnwys cam-fanteisio ar bob math o bobl, gan gynnwys pobl ifanc a diamddiffyn.

Mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn ymroi i ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer ei ddysgwyr a holl aelodau'r staff fel ei gilydd. Mae holl weithwyr y Cwmni'n cydnabod mai cyfrifoldeb pawb yw diogelu, ni waeth pa rôl maen nhw'n ymgymryd â hi neu os oes gan eu rôl gyswllt â phlant, pobl ifanc neu bobl ddi-amddiffyn neu gyfrifoldeb uniongyrchol ar eu cyfer neu beidio. Cyfrifoldeb yr holl aelodau staff yw darllen, deall a gweithredu'r polisi hwn yn eu rolau a'u cyfrifoldebau. Bydd yr holl aelodau staff newydd yn cael copi o'r polisi hwn ynghyd â Pholisi Diogelu'r Cwmni fel rhan o'r broses gynefino, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Polisi Diogelu.

Wrth lynu at y polisi hwn a'r gweithdrefnau ynddo, bydd yr holl staff yn cyfrannu at waith CHC o gyflwyno'r canlyniadau i'r holl blant a phobl ifanc, yn unol ag adran 10 (2) Deddf Plant 2004¹. Y Polisi Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio hwn yw un elfen yn ein trefniadau cyflwyno dysgu cyffredinol er mwyn Diogelu a Hyrwyddo Lles yr holl Blant.

Wrth weithredu'r polisi hwn, defnyddia'r Cwmni ddiffiniadau safonol canlynol y Llywodraeth o eithafiaeth a radialeiddio:

Eithafiaeth: *"Gwrthwynebiad ar lafar neu weithredol i werthoedd Prydeinig sylfaenol, gan gynnwys democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, rhyddid unigolion a pharch a goddefgarwch at wahanol grefyddau a chredoau; ac/neu alwadau am farwolaeth aelodau ein lluoedd arfog, boed yn y wlad hon neu dramor"*.

Radicaleiddio: *"y broses lle daw rhywun i gefnogi terfysgaeth ac ideolegau eithafol sy'n gysylltiedig â grwpiau terfysgol"*.

Ethos ac Ymarfer

Nid oes lle i safbwyntiau eithafol o unrhyw fath yn ein busnes nac o fewn y gweithgareddau a gynhelir gan ein Cwmni, boed hynny o ffynonellau mewnol neu ffynonellau allanol yn y gymuned ehangach. Disgwylwn i'n dysgwyr a'n staff edrych ar ein gweithgareddau a'r amgylchedd lle mae ein gweithgareddau'n digwydd mewn

amgylcheddau diogel lle gallant archwilio materion dadleuol yn ddiogel a lle mae ein haelodau staff yn annog ac yn hwyluso hyn – mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Cydnabyddwn y gall eithafiaeth ac amlygiad i ddeunyddiau a dylanwadau eithafol arwain at ganlyniadau gwael i'n dysgwyr ac felly dylid mynd i'r afael ag ef fel pryder diogelu yn unol â'r polisi hwn. Cydnabyddwn hefyd os methwn herio safbwyntiau eithafol, rydym yn methu diogelu'n dysgwyr.

Nod eithafwyr o bob credo yw datblygu perthnasoedd dinistriol rhwng gwahanol gymunedau trwy hyrwyddo rhwyg, ofn a diffyg ffydd mewn pobl eraill, a hynny ar sail anwybodaeth neu ragfarn, ac felly'n cyfyngu ar gyfleoedd bywyd pobl ifanc. Mae addysg yn arf pwerus yn erbyn hyn; gan ddarparu gwybodaeth, y sgiliau a'r meddwl beirniadol i bobl ifanc herio a dadlau mewn ffordd ddeallus. Felly, byddwn yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, a gyflwynir gan weithwyr proffesiynol medrus, er mwyn i'n dysgwyr gael eu cyfoethogi, er mwyn iddynt ddeall a bod yn oddefgar at wahaniaeth ac amrywiaeth a sicrhau hefyd eu bod yn ffynnu, yn teimlo'n werthfawr ac nad ydynt yn cael eu gwthio i'r cyrion.

Rydym yn ymwybodol hefyd y gall pobl ifanc gael eu hamlygu i ddylanwadau eithafol neu farnau rhagfarnol yn ifanc a bod hynny'n deillio o amryw ffynonellau a chyfryngau, gan gynnwys trwy'r rhyngwyd, ac ar adegau, gall plant eu hunain fyfyrion ar safbwyntiau neu ddangos safbwyntiau a allai fod yn wahaniaethol, yn rhagfarnol neu'n eithafol, gan gynnwys defnyddio iaith ddifriol.

Bydd unrhyw ragfarn, gwahaniaethu neu safbwyntiau eithafol, gan gynnwys iaith ddifriol, a ddengys gan ddysgwyr neu aelodau staff, yn cael eu herio bob amser a, lle bo'n briodol, yn cael eu hymdrin â nhw yn unol â gweithdrefnau a pholisïau mewnol y Cwmni.

Fel rhan o gyfrifoldebau diogelu ehangach y Cwmni, bydd y staff yn effro i:

- Ddatgeliadau gan blant o gael eu hamlygu i weithredoedd, safbwyntiau neu ddeunyddiau eithafol pobl eraill y tu allan i'r gweithle ac amgylcheddau dysgu, fel yn eu cartrefi neu grwpiau cymunedol, yn enwedig lle nad yw plant wedi mynd ati i chwilio am y rhain.
- Symbolau graffiti, ysgrifen neu waith celf sy'n hyrwyddo negeseuon neu ddelweddau eithafol
- Plant sy'n troi at ddeunydd eithafol ar-lein, gan gynnwys trwy'r safleoedd rhwydweithio cymdeithasol

- Adroddiadau'r rhieni o newidiadau mewn ymddygiad, cyfeillgarwch neu gamau gweithredu a cheisiadau am gymorth.
- Adroddiadau gwasanaethau'r awdurdodau lleol a'r heddlu o faterion sy'n effeithio ar blant mewn lleoliadau eraill.
- Unigolion a phobl ifanc yn lleisio barnau a dynnwyd o ideolegau ac adroddiadau eithafol.
- Defnydd o dermau eithafol neu 'gasineb' i eithrio pobl eraill neu annog trais
- Anoddefgarwch tuag at wahaniaeth, boed hynny'n seciwlar neu'n grefyddol neu, yn unol â'n polisi cydraddoldeb, safbwyntiau sy'n seiliedig ar, ond heb fod yn gyfyngedig i rywedd, anabledd, homoffobia, hil, lliw neu ddiwylliant
- Ymdrechion i wthio safbwyntiau neu arferion eithafol ar bobl eraill
- Safbwyntiau Gwrth-Orllewinol neu Wrth-Brydeinig.

Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn dilyn yn agos unrhyw weithdrefn a gytunwyd yn lleol, fel y gosodwyd gan yr Awdurdod Lleol ac /neu Fyrddau Diogelu Plant Lleol, prosesau a meini prawf cytûn er mwyn diogelu unigolion sy'n agored i eithafiaeth a radicaleiddio.

Dulliau Addysgu

Bydd pob un ohonom yn ymdrechu i ddileu'r mythau a'r tybiaethau a all arwain at rai pobl ifanc yn cael eu dieithrio a'u dadrymuso, yn enwedig lle mae'r dulliau cul y gallai pobl ifanc eu profi rywle arall ei gwneud hi'n anos iddynt herio neu gwestiynu'r dylanwadau radical hyn.

Byddwn yn sicrhau bod ein holl ddulliau addysgu a dysgu'n helpu'n dysgwyr i fagu cryfder at eithafiaeth a rhoi ymdeimlad cadarnhaol o hunaniaeth i bobl ifanc a dysgwyr trwy ddatblygu sgiliau meddwl yn feirniadol. Byddwn yn sicrhau bod ein holl staff wedi'u darparu ar eu cyfer i gydnabod eithafiaeth a'u bod yn ddigon medrus a hyderus i'w herio.

Byddwn yn ddigon hyblyg i addasu'n dulliau addysgu, fel y bo'n briodol, i fynd i'r afael â materion penodol er mwyn iddynt fod hyd yn oed yn fwy perthnasol i faterion cyfredol eithafiaeth a radicaleiddio. Bydd ein dull yn cael ei ymgorffori yn ethos ein Cwmni er mwyn i bobl ifanc wybod a deall beth yw ymddygiad diogel a derbyniol yng nghydestun eithafiaeth a radicaleiddio. Ein nod yw meithrin parch at ein gilydd a dealltwriaeth o'n gilydd a hyrwyddo'r defnydd o ddeialog yn lle trais fel ffordd o ddatrys gwrthdaro. Byddwn yn cyflawni hyn trwy ddefnyddio cwricwlwm sy'n cynnwys:

- Trafodaeth a dadl agored

- Gwaith ar atal trais a dull adferol yr eir i'r afael ag ef ar hyd pob llwybr cwricwlwm

Byddwn yn gweithio hefyd gyda phartneriaid lleol, teuluoedd a chymunedau yn ein hymdrechion i sicrhau bod ein dysgwyr a'n gweithwyr yn deall ac yn cofleidio'n cydestun a gwerthoedd lleol, wrth herio safbwyntiau eithafol a chynorthwyo wrth ehangu profiadau a gorwelion ein dysgwyr. Byddwn yn helpu cefnogi dysgwyr a allai fod yn ddiamddiffyn i'r fath ddylanwadau fel rhan o'n cyfrifoldebau diogelu ehangach a, lle credwn fod plentyn neu unigolyn ifanc yn cael ei effeithio'n uniongyrchol gan ddeunyddiau neu ddylanwadau eithafol, byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth mentora'n cael ei gynnig i'r unigolyn hwn. Yn ogystal, mewn achos o'r fath, bydd ein Cwmni'n gofyn am gymorth allanol gan yr Awdurdod Lleol ac/neu strwythurau partneriaeth lleol sy'n gweithio i atal eithafiaeth.

Byddwn yn hyrwyddo gwerthoedd democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, rhyddid unigolion, parch a goddefgarwch tuag at bobl o wahanol grefyddau a chredoau yng Nghwmni Hyfforddiant Cambrian. Byddwn yn annog unigolion i barchu ei gilydd a pharchu a goddef gwahaniaeth, yn enwedig y rhai sydd o ffydd wahanol neu ddim ffydd. Yn wir, ein cyfrifoldeb mwyaf hanfodol yw cadw'n dysgwyr yn ddiogel a'u paratoi am fywyd mewn Prydain fodern amlddiwylliannol ac yn fyd-eang.

Datgelu Pryderon

Lle mae pryderon am eithafiaeth neu radicleiddio, bydd dysgwyr a staff yn cael eu hannog i ddefnyddio'n systemau mewnol i godi unrhyw fater yn gyfrinachol fel y gosodwyd yn Natgeliadau'r Cwmni ym Mholisi Budd y Cyhoedd.

Amddiffyn Plant

Cyfeiriwch at Bolisi Diogelu'r Cwmni ar gyfer y fframwaith gweithdrefnol llawn ar ein dyletswyddau Amddiffyn Plant.

Bydd staff yn effro i'r ffaith er bod Eithafiaeth a Radicleiddio'n fater diogelu yn fras, hwyrach bod rhai achosion lle gallai plentyn neu berson ifanc fod mewn perygl uniongyrchol o niwed neu esgeulustod. Er enghraifft, gallai hyn fod yn sgil plentyn yn arddangos ymddygiad peryglus o ran y gweithgareddau maen nhw ynghlwm â nhw neu'r grwpiau maen nhw'n gysylltiedig â nhw, neu gallai staff fod yn ymwybodol o wybodaeth am deulu plentyn a allai, yn yr un modd, roi plentyn mewn perygl o niwed. Felly, bydd yn ofynnol i'r holl aelodau staff a'r dysgwyr roi gwybod i'r Swyddog Diogelu Dynodedig am achosion lle credant y gallai plentyn fod mewn perygl o niwed neu esgeulustod.

Caiff trefniadau adrodd Amddiffyn Plant y Cwmni eu gosod yn llawn yn y Polisi Diogelu.

Arweinydd Diogelu Dynodedig

Y **Rheolwr Cyffredinol** yw'r Arweinydd Diogelu Dynodedig.

Mae gan y Rheolwr Cyffredinol ddyletswydd i gymryd cyfrifoldeb am yr holl ddiogelu, amddiffyn plant, a materion yn ymwneud â lles plant a phobl ifanc.

Hyfforddiant

Bydd hyfforddiant cyson yn cael ei ddarparu i aelodau staff ar ddiogelu ac amddiffyn plant a fydd yn cynnwys hyfforddiant ar eithafiaeth a radicaleiddio yng nghyfnod cynefino'r gyflogaeth ac o leiaf bob tair blynedd wedi hynny.

Recriwtio

Bydd y trefniadau ar gyfer recriwtio aelodau staff yn unol â Pholisi Diogelu'r Cwmni fel a ganlyn:

- Rhoi archwiliadau priodol ar waith i staff a allai weithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion diamddiffyn.
- Diffinio swyddi a rolau'n glir.
- Dynodi meini prawf dewis allweddol ar gyfer y swydd neu'r rôl.
- Hysbysebu'r swyddi ar raddfa eang er mwyn sicrhau amrywiaeth o ymgeiswyr.
- Cael tystiolaeth ddogfennol o gymwysterau academaidd/galwedigaethol.
- Cael geirdaon proffesiynol/cymeriad cyn cyflogi rhywun yn barhaol.
- Gwirio hanes cyflogaeth blaenorol.
- Bydd y Cwmni'n sicrhau defnydd sensitif a chyfrinachol o ddatgeliad yr ymgeisydd ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Defnyddio amrywiaeth o dechnegau dewis (e.e. cymwysterau, profiad blaenorol, cyfweliad, archwilio geirdaon).

Trwy roi'r egwyddorion arfer gorau o ran recriwtio diogelach uchod ac arfer cyflogaeth gadarn ar waith yn gyffredinol, bydd y Cwmni'n gwadu cyfleoedd ar gyfer recriwtio neu ddatblygiadau amhriodol.

Byddwn yn effro i'r posibilrwydd y gallai pobl geisio gael swyddi yn y Cwmni er mwyn dylanwadu'n ormodol ar gymeriad ac ethos y sefydliad. Rydym yn ymwybodol y gallai'r fath bobl geisio cyfyngu ar y cyfleoedd i'n dysgwyr, ac felly eu gwneud nhw'n agored

i safbwyntiau eithafol a radicaleiddio. Felly, trwy lynu at dechnegau arfer gorau o ran recriwtio diogelach a thrwy sicrhau bod diwylliant parhaus o wylidwriaeth yn ein sefydliad, byddwn yn lleihau'r cyfleoedd i safbwyntiau eithafol fodoli.

Rôl Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Bydd bwrdd y cyfarwyddwyr yn cefnogi ethos a gwerthoedd y Cwmni ac yn cefnogi'r sefydliad i fynd i'r afael ag eithafiaeth a radicaleiddio.

Bydd y Cwmni'n adolygu'r polisi'n flynyddol a gallai ei ddiwygio y tu allan i'r amserlen adolygu yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth neu ganllawiau newydd, neu mewn ymateb i unrhyw argymhellion sicrhau ansawdd sy'n ymwneud â chyflwyno'r polisi hwn a'r trefniadau diogelu cyffredinol sydd gan y Cwmni ar waith.

Arwyddwyd:.....
Rheolwr Gyfarwyddwr

...OBE.....

Dyddiad:.....20 Hydref 2018.....

Dyddiad Adolygu:.....Hydref 2019.....

Registered Office: Tŷ Cambrian, Unit 10 Offas Dyke Business Park, Fisher Road, Buttington, Welshpool, SY21 8JF
T/Ff: 01938 555893 | E: info@cambriantraining.com | cambriantraining.com | Registered No. 3102054

